**Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaethau Tai**

# Gwobrau Cynnwys Cwsmeriaid – Dydd Gwener 1 Tachwedd 2013

## The Clock Tower, Mostyn.

## 7.30pm till 11.30pm

Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir y Fflint yn falch o gyhoeddi'r drydedd Seremoni Gwobrau Cynnwys Cwsmeriaid blynyddol. Dyma ein cyfle i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a enwebir am y gwaith rhagorol a wnânt yn eu cymunedau a'r rhai sy'n mynd yr ail filltir. Felly cwblhewch y ffurflenni enwebu a chroesi eich bysedd.

Wrth gyflwyno eich enwebiadau, ceisiwch roi cymaint o wybodaeth berthnasol a chryno ag y gallwch. Bydd hyn yn galluogi'r beirniaid i ddeall eich enwebiad yn llawn a'i asesu'n deg yn erbyn enwebiadau eraill. Os bydd eich enwebiad yn cyrraedd y rhestr fer byddwch yn cael gwahoddiad i'r seremoni wobrwyo.

**Categorïau**

- **Gwobr y prosiect amgylcheddol gorau**
- **Gwobr contractwr y flwyddyn**
- **Cymorth cymunedol**
- **Gwobr Tai Gwarchod**
- **Gwobr rhagoriaeth yn y gymuned**
- **Gwobr grŵp ieuenctid/cynnwys pobl ifanc (rhaid bod dan 25 mlwydd oed)**
- **Gwobr gwirfoddolwr y flwyddyn**

**Gwobr y prosiect amgylcheddol gorau**

Ydych chi wedi datblygu prosiect sydd wedi cael effaith ar yr amgylchedd? Ydych chi wedi bod yn gweithio gyda grŵp neu fudiad sydd wedi gwneud gwahaniaeth? Anfonwch ffurflen enwebu gyda llawer o luniau….***(Enwebiadau gan grwpiau tenantiaid, mudiadau allanol neu staff)***

**Gwobr contractwr y flwyddyn**

Oes yna gontractwr sy'n gweithio neu wedi gweithio yn eich cymuned ac sydd wedi mynd yr ail filltir? Ydyn nhw wedi cefnogi eich grŵp neu'ch cymuned mewn ffordd rydych chi'n credu sy'n haeddu cydnabyddiaeth? Rhowch wybod i ni. **(*Enwebiadau gan denantiaid neu grwpiau tenantiaid yn unig)***

**Gwobr cymorth cymunedol –** Ydych chi'n adnabod aelod o staff neu gorff allanol sy'n mynd yr ail filltir? Ydyn nhw wedi cefnogi eich grŵp neu'ch cymuned mewn ffordd nad yw'n rhan o'u 'gwaith bob dydd', neu sy'n dilyn yr arferion gorau wrth weithio mewn partneriaeth? Rhowch wybod i ni pam rydych yn credu eu bod yn haeddu gwobr. ***(Enwebiadau gan denantiaid/grwpiau cymunedol yn unig)***

**Gwobr Tai Gwarchod –** Ai eich cynllun tai gwarchod chi yw'r gorau? Oes gennych lawer o weithgareddau? Dywedwch wrthym pam y dylai eich cynllun ennill ***(Enwebiadau gan denantiaid neu grwpiau tenantiaid yn unig)***

**Gwobr rhagoriaeth yn y gymuned –** Mae'r categori hwn yn agored i grwpiau neu unigolion sydd wedi dangos, trwy'r gwaith y maen nhw wedi'i wneud, eu bod wedi darparu canlyniadau cadarnhaol i'r gymuned neu eu bod wedi dilyn yr 'arferion gorau' gyda'r gwaith a wnânt. ***(Enwebiadau gan grwpiau tenantiaid, mudiadau allanol neu staff)***

**Gwobr grŵp ieuenctid/cynnwys pobl ifanc (rhaid bod dan 25 mlwydd oed)**

Ydych chi'n adnabod unigolyn ifanc neu grŵp ieuenctid sydd wedi cymryd rhan mewn prosiect cymunedol? Ydyn nhw wedi gwneud gwahaniaeth i'r gymuned neu i bobl eraill? Rhowch wybod i ni pam rydych chi'n credu eu bod yn haeddu cydnabyddiaeth. ***(Enwebiadau gan grwpiau tenantiaid, mudiadau allanol neu staff)***

**Gwobr gwirfoddolwr y flwyddyn -** Ydych chi'n adnabod unigolyn sy'n gwirfoddoli yn eich cymuned? Hoffech chi ei (g)weld yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu? Dywedwch wrthym pam rydych yn credu y dylai ennill y wobr hon a chofiwch gynnwys y dystiolaeth. ***(Enwebiadau gan unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned neu staff)***

**Cofiwch...** Bydd y beirniaid yn chwilio am y gwahaniaeth y mae unigolyn, grŵp, mudiad neu brosiect wedi'i wneud. Nid yw'r beirniaid eisiau darllen am syniad da yn unig - maen nhw eisiau gweld sut mae pethau wedi gweithio yn ymarferol.

Mae'n rhaid gwneud pob enwebiad ar y ffurflen enwebu a gallwch roi hyd at bedair ochr A4 o dystiolaeth ychwanegol. Gallwch gynnwys hyd 4 o luniau (rhaid nodi eich manylion cyswllt yn glir arnynt er mwyn i ni eu dychwelyd). Os byddwch yn cynnwys cylchlythyrau, taflenni neu lyfrynnau fel rhan o'ch tystiolaeth ychwanegol, nodwch eich manylion cyswllt yn glir ar y rhain hefyd.

**MAE'N RHAID CYFLWYNO POB ENWEBIAD ERBYN DYDD GWENER 11 HYDREF 2013 FAN HWYRAF – CYHOEDDIR YR ENILLWYR YN Y SEREMONI WOBRWYO AC YNA YN RHIFYN Y GAEAF O NEWYDDION TAI.**

# GWOBRAU CYNNWYS CWSMERIAID 2013

## Ffurflen enwebu

**<u>EICH MANYLION</u>**

ENW.........................................................................................................................................

CYFEIRIAD..................................................................................................................................

.........................................................................Cod Post.......................................................

RHIF FFÔN CYSWLLT...................................................................................................................

E-BOST.......................................................................................................................................

Eich Llofnod...............................................................................................................................

**<u>Manylion am yr unigolyn/grŵp yr hoffech iddynt ennill gwobr</u>**

ENW.........................................................................................................................................

CYFEIRIAD..................................................................................................................................

.........................................................................Cod Post.......................................................

RHIF FFÔN CYSWLLT...................................................................................................................

E-BOST.......................................................................................................................................

**<u>AR GYFER PA GATEGORI YDYCH CHI'N EU HENWEBU?</u>**

**<u>Categorïau</u>** *(Ticiwch un categori yn unig; defnyddiwch ffurflen arall ar gyfer enwebiadau ychwanegol)*

- Gwobr y prosiect amgylcheddol gorau ☐

- Gwobr contractwr y flwyddyn ☐
- Cymorth cymunedol ☐
- Gwobr Tai Gwarchod ☐
- Gwobr rhagoriaeth yn y gymuned ☐
- Gwobr grŵp ieuenctid/cynnwys pobl ifanc (rhaid bod dan 25 mlwydd oed) ☐
- Gwobr gwirfoddolwr y flwyddyn ☐

**Dywedwch wrthym pam rydych yn credu y dylai'r grŵp neu'r unigolyn ennill gwobr. Pa wahaniaeth maen nhw wedi'i wneud i'r gymuned neu i chi?**

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

**Gallwch gyflwyno hyd at bedair tudalen A4 o wybodaeth ychwanegol hefyd. Gall hyn gynnwys lluniau, erthyglau mewn papurau newydd a datganiadau gan bobl eraill.** *(Dylech sicrhau eich bod yn ysgrifennu eich enw a'ch cyfeiriad ar gefn unrhyw luniau rydych yn dymuno eu cael yn ôl.)*

**Anfonwch** eich ffurflen wedi'i chwblhau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol at Yr Uned Cynnwys Cwsmeriaid, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Capel, Y Fflint CH6 5BD erbyn **Dydd Gwener 11 Hydref 2012** fan hwyraf.

Nodwch ar eich amlen - **Gwobrau Cynnwys Cwsmeriaid**